**Eitem: 19**

**Teitl:** Adroddiad rhaglen waith y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w gymeradwyo |
| **Amseru / Timing** | Medi 2025 |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn a chymeradwyo rhaglen waith arfaethedig y Bwrdd wedi'i diweddaru. |
| **Risg / Risk** | Os na fydd y Bwrdd yn datblygu ac yn cytuno ar raglen waith ar ôl yr adolygiad o'i effeithiolrwydd ei hun, mae perygl na fydd Bwrdd Llais yn parhau i ddatblygu a sicrhau bod ei weithrediad a/neu wneud penderfyniadau yn cyd-fynd ag arferion llywodraethiant da a'r gofynion statudol gofynnol, ei Reolau Sefydlog ei hun a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol Lais. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn arbennig â'n blaenoriaeth i dyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithrediad a chyflawniad llwyddiannus ar gyfer pob agwedd ar waith Llais ac felly, cyflawni'r holl amcanion allweddol. |
| **Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant Llais. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid / partneriaid / rhanddeiliaid ☒ |

| | |
|---|---|
| | **Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Alyson Thomas, Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Mae'r Bwrdd wedi bod â rhaglen waith datblygu treigl ar waith ers ei sefydlu, sydd wedi'i hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd. |
| **Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting** | Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **Dyddiad / Date** | 15 Medi 2025 |

**Cefndir / Background**

**Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd:** Yn dilyn Adolygiad Effeithiolrwydd Bwrdd cynhwysfawr ddiwedd Ebrill 2025, nodwyd nifer o feysydd allweddol i'w datblygu yn y flwyddyn i ddod. Cyflwynwyd hwn i'r Bwrdd a'i gymeradwyo ar 28 Gorffennaf 2025. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n cael ei ychwanegu at y blaenraglen waith presennol a'r cynllun amserlennol.

Bydd y Bwrdd hefyd o bosibl yn nodi meysydd ychwanegol i'w datblygu yn ystod y flwyddyn pe bai'n ofynnol iddynt gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau a bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y rhaglen ddatblygu yn ôl yr angen.

**Manylion / Detail**

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad hwn a'r rhaglen waith ddiweddaraf arfaethedig sydd ynghlwm yn atodiad a.